Cyngor Meddygol Cyffredinol

Hawdd ei Ddeall

# Beth rydyn ni'n mynd i weithio arno

## Rhwng 2026 a 2030




# Hawdd ei ddeall




Dyma wybodaeth mewn llyfryn Hawdd ei Ddeall. Efallai na fydd yn cynnwys popeth ond bydd yn sôn am y pethau pwysig.



Mae'r fersiwn Hawdd ei Ddeall yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai y bydd rhai pobl eisiau help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn print **tywyll** – gyda'r ysgrifen yn fwy trwchus a thywyll. Mae'r rhain yn eiriau pwysig yn y llyfryn.




Weithiau os bydd gair tywyll yn anodd ei ddeall, byddwn ni'n esbonio beth ydy ei ystyr.




Mae geiriau glas wedi'u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch chi glicio ar y dolenni ar ffôn, tabled neu gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn

Gwybodaeth am y llyfryn ........................................................ 4

Beth rydyn ni eisiau ei gyflawni ................................................ 6

Gweithio gydag eraill i sicrhau bod cleifion yn cael gofal da a diogel .......................................................................... 8

Gwneud ein gwaith yn well ac yn decach ................................. 11

Gwneud yn siŵr fod pawb yn gallu cael help gennym ni ................ 13

Rheoli'r GMC yn dda, a'i wneud yn lle da i weithio ........................ 15

Rhagor o wybodaeth ........................................................ 17

# Gwybodaeth am y llyfryn

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sydd wedi creu'r llyfryn yma.




Rydyn ni'n helpu meddygon, **cymdeithion meddygol** a **chymdeithion anesthesia** i roi gofal da a diogel i gleifion.



Mae **cymdeithion meddygol** yn rhan o'r tîm sy'n gofalu am gleifion.

Mae meddygon yn eu **goruchwylio** – felly mae meddygon yn eu helpu nhw i wneud eu gwaith yn dda.



Mae **cymdeithion anesthesia** yn rhan o'r tîm sy'n gwneud yn siŵr nad ydych chi'n teimlo poen pan fyddwch chi'n cael llawdriniaeth.

Mae **anesthetyddion** yn eu goruchwylio. **Anesthetyddion** ydy meddygon sy'n gwneud yn siŵr nad ydych chi'n teimlo poen pan fyddwch chi'n cael llawdriniaeth.





Mae'r llyfryn hwn yn egluro beth rydyn ni'n mynd i weithio arno'n bennaf rhwng 2026 a 2030.

Rydyn ni eisiau gweithio ar bedwar prif syniad:




1. Gweithio gydag eraill i sicrhau bod cleifion yn cael gofal da a diogel.




2. Gweneud ein gwaith yn well ac yn decach.




3. Gwneud yn siŵr fod pawb yn gallu cael help gan ein gwasanaethau.




4. Rheoli'r GMC yn dda, a'i wneud yn lle da i weithio.

# Beth rydyn ni eisiau ei gyflawni




Rydyn ni wedi meddwl beth rydyn ni eisiau i'r GMC ei wneud.



Rydyn ni wedi meddwl am y canlynol:

- Cleifion.



- Y cyhoedd.



- Meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.



- Y bobl sy'n gweithio i ni.

Byddwn ni'n gwneud y canlynol:



- Trin pawb yn deg.




- Gweithio gydag eraill i helpu i wneud gwasanaethau iechyd yn well ymhob rhan o'r wlad.

Dyma sefydliadau y byddwn ni’n gweithio gyda nhw:




- Gwasanaethau iechyd, fel y GIG (NHS).




- Llefydd sy’n hyfforddi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, fel prifysgolion.

# Gweithio gydag eraill i sicrhau bod cleifion yn cael gofal da a diogel



Dylai meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia weithio mewn llefydd sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn dda.

## Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

Rydyn ni eisiau helpu pobl i wneud gwaith da. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:



- Helpu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddeall sut mae gwneud gwaith da.



- Gweithio gyda'r bobl sy'n rhedeg gwasanaethau iechyd i'w helpu i drin eu staff yn deg.

Byddwn ni hefyd yn gwneud y canlynol:




- Helpu pobl i barhau i ddysgu er mwyn iddyn nhw allu gofalu am gleifion yn dda a mwynhau eu swyddi.



- Dysgu mwy am feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddeall:
  - Ble maen nhw’n gweithio.
  - Sut mae nhw’n teimlo am hyn.
  - Am faint o amser maen nhw eisiau aros.



- Rhannu’r wybodaeth gyda llywodraeth a gwasanaethau iechyd.



Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau’n cefnogi eu staff ac yn rhoi’r hyfforddiant cywir i bobl.




Byddwn ni hefyd yn cydweithio ag eraill i wneud yn siŵr bod ein safonau'n cael eu bodloni er mwyn i gleifion allu cadw'n ddiogel.



Bydd hyn yn ein helpu ni i wneud yn siŵr ein bod ni'n helpu pobl.

# Gwneud ein gwaith yn well ac yn decach





Byddwn ni'n gwella’r ffordd rydyn ni’n gweithio er mwyn cefnogi gofal da yn gyflymach a thecach.

## Beth ydyn ni'n mynd i’w wneud



Rydyn ni eisiau gwneud penderfyniadau teg yn gyflym.

Ac rydyn ni eisiau iddi fod yn hawdd i bobl ddeall ein penderfyniadau.



Byddwn ni’n gwirio ein ffordd o wneud penderfyniadau am feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.





Byddwn ni’n meddwl a ydyn ni wedi bod yn deg â phawb, gan gynnwys cleifion, meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.

Byddwn ni hefyd yn gwneud y canlynol:




- Gweithio gyda’r llywodraeth wrth iddi ysgrifennu cyfreithiau newydd am ein gwaith, a gwneud yn siŵr ein bod ni’n eu cyflawni’n dda.





- Parhau i wella’r ffordd rydyn ni'n gwneud ein gwaith.

  Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu cynlluniau i wneud yn siŵr ein bod ni’n gallu delio â chwynion am feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn gyflym ac yn deg.



- Gwella'r ffordd mae ein sefydliad yn newid er mwyn cwrdd â’r anghenion sydd gan wahanol bobl.




- Ysgrifennu safonau ar gyfer hyfforddiant, i wneud yn siŵr fod y sgiliau cywir gan feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaethesia.




- Dal ati i wirio bod ein safonau’n helpu pobl.

# Gwneud yn siŵr fod pawb yn gallu cael help gennym ni



Rydyn ni eisiau iddi fod yn hawdd i unrhyw un siarad gyda ni.

Ac rydyn ni eisiau trin pawb â pharch.

## Beth rydyn ni'n mynd i’w wneud

Byddwn ni’n gwneud y canlynol:



- Gweithio i wneud ein **gwasanaethau cwsmeriaid** yn well i bawb sy’n cysylltu â ni.

  Ystyr **gwasanaeth cwsmeriaid** ydy helpu’r bobl sy’n cysylltu â ni.



- Dysgu mwy am y bobl sy’n cysylltu â ni.


  Bydd hyn yn ein helpu ni i’w cefnogi nhw.

Byddwn ni hefyd yn gwneud y canlynol:



- Gwrando ar y syniadau sydd gan wahanol bobl.

  Os bydd pobl yn rhannu syniadau da gyda ni, byddwn ni'n dechrau eu defnyddio.




- Esbonio’n glir pwy ydyn ni, beth rydyn ni’n ei wneud, a pham mae’n bwysig.

# Rheoli'r GMC yn dda, a'i wneud yn lle da i weithio



Mae llawer o bobl yn gweithio i ni.

Rydyn ni eisiau bod yn lle da i bawb weithio.

## Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud



Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi ein harweinwyr i reoli eu timau'n garedig.



- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd a theimlo'n hapus yn y gwaith.




- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n trin staff **ethnig lleiafrifol** a staff anabl yn well.

  Dydy pobl **ethnig lleiafrifol** ddim o'r un hil â'r rhan fwyaf o bobl lle maen nhw'n byw.

Byddwn ni hefyd yn gwneud y canlynol:



- Defnyddio cyfrifiaduron a gwybodaeth i wneud ein gwaith yn haws ac yn well.




- Dal ati i chwilio am ffyrdd o weithio a gwneud penderfyniadau.



- Gwneud yn siŵr nad ydy ein gwaith ddim yn niweidio'r **amgylchedd**.

  Yr **amgylchedd** ydy byd natur o'n cwmpas. Mae'n cynnwys planhigion, anifeiliaid, y môr a'r awyr.

# Rhagor o wybodaeth




Gallwch chi edrych ar ein gwefan yma:
gmc-uk.org


Gallwch chi gysylltu â ni drwy:



- Ffôn: 0161 923 6602



- Ffôn testun: 18001 0161 923 6602




- E-bost: gmc@gmc-uk.org

Cafodd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn ei greu gan easy-read-online.co.uk
Mae'r llyfryn yn cynnwys delweddau ar drwydded gan Shutterstock.

Os oes gennych chi unrhyw gwesdynau am y lly fryn hwn, cysylltwch â'r Cyngor Meddy gol Cyffredinol (GMC).